

A yw ystadau'r GIIG yn addas i'r diben?

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Medi 2026



Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 61(3)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch aildddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei aildddefnyddio, rhaid i chi ei aildddefnyddio'n gywir a rhaid iddo beidio â bod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru, a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildddefnyddio.

Os oes angen unrhyw help arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni yn post@archwilio.cymru

Gallwch gysylltu â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg – byddwn yn ymateb gan ddefnyddio'r un iaith â chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Prif Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

Cynnwys

Ciplun archwiliad	4
Ffeithiau a ffigyrau allweddol	7
Ein canfyddiadau	9
Argymhellion	36
Atodiadau	39
1 Ynglŷn â'n gwaith	40
2 Maint a lleoliad yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw sydd gan y Bwrdd Iechyd	43
3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn	44
4 Ffurflen Ymateb Rheolwyr	48

Ciplun archwiliad

Yr hyn yr edrychom arno

- 1 Gwnaethom edrych ar ba mor dda y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (y Bwrdd Iechyd) yn rheoli ei ystad.

Pam mae hyn yn bwysig

- 2 Mae ystad y GIG yng Nghymru yn darparu'r seilwaith hanfodol i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae'n chwarae rhan allweddol wrth ddarparu gofal diogel o ansawdd uchel a gwella profiad y claf. Fodd bynnag, mae ystad y GIG yn amrywio'n fawr o ran oedran, cyflwr a lleoliad ledled Cymru. Mae ystad sydd wedi'i chynnal a'i chadw'n wael yn creu risgiau iechyd a diogelwch, gan gynnwys problemau diogelwch rhag tân a niwed posibl i gleifion. Gall ystad sydd wedi dyddio hefyd effeithio ar berfformiad gwasanaethau, bod yn llai effeithlon o ran ynni, a bod yn rhwystro i ddarparu gofal iechyd modern.
- 3 Mae angen i'r GIG yng Nghymru foderneiddio ei ystad, cyflawni gwelliannau amgylcheddol, gwella mynediad, ac addasu i ddiwallu anghenion gofal iechyd modern. Mae nifer o strategaethau a chynlluniau'r GIG yn dibynnu ar welliannau i'r ystad. Mae'r rhain yn amrywio o flaenoriaethau strategol uniongyrchol sy'n ymwneud â seilwaith a buddsoddiad cyfalaf, i'r gofynion i leihau allyriadau carbon a gwella effeithlonrwydd ynni.
- 4 Pwysleisiodd cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer 2018 – Cymru Iachach – bwysigrwydd ystad y GIG fel galluogwr allweddol ar gyfer trawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol. Gan gynnwys yr angen am gyfleusterau modern, cefnogi integreiddio digidol, a chanolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni ac arferion sy'n ecogyfeillgar. Mae hyn i gyd yn erbyn cefndir o bwysau ariannol sylweddol ar draws y GIG yng Nghymru.

Yr hyn a ganfuom

- 5 Mae gan y Bwrdd lechyd weledigaeth glir ar gyfer ei ystad. Fodd bynnag, mae diffyg aliniad priodol rhwng strategaeth yr ystadau a strategaethau a chynlluniau sefydliadol eraill, y diffyg cerrig milltir clir, a chynllun ariannol anfforddiadwy yn lleihau gallu'r Bwrdd lechyd i gyflawni newid hirdymor. Er bod atebolrwydd yn glir a bod goruchwyliaeth ar lefel y Bwrdd yn gwella, mae bylchau mewn adrodd ar berfformiad, newidiadau gweithredol araf, a risgiau gweithredol uchel sydd wedi'u rheoli'n wael yn gwanhau rheolaeth effeithiol.
- 6 Mae gan y Bwrdd lechyd brosesau cadarn ar gyfer blaenoriaethu a monitro buddsoddiad cyfalaf, ond mae cyllid hwyr a phwysau gwario ar ddiwedd y flwyddyn yn lleihau effeithlonrwydd a rheolaeth ariannol. Er bod yr ystad yn gymharol fodern gyda risg isel o ôl-groniad, mae materion yn ymwneud â chyflwr, cynllunio ac effeithlonrwydd yn lleihau perfformiad ac yn cynyddu risg weithredol.
- 7 Mae'r Bwrdd lechyd hefyd yn wynebu heriau ehangach sy'n cynyddu'r risg i wasanaethau. Mae prosesau gwan o ran risg a chydymffurfiaeth, nifer cynyddol o ddigwyddiadau, a chmau gweithredu cyfyngedig mewn perthynas â materion hysbys yn amlygu cleifion a staff i risg y gellir ei hosgoi. Ar yr un pryd, mae pwysau ar y gweithlu – gan gynnwys swyddi gwag a bylchau o ran capasiti – yn cynyddu costau ac yn cyfyngu ar allu'r Bwrdd lechyd i gynnal gwasanaethau ac ymateb i alwadau'r dyfodol.

Yr hyn rydym yn ei argymhell

- 8 Rydym wedi gwneud wyth argymhelliad i'r Bwrdd lechyd sy'n canolbwyntio ar y canlynol:
 - diweddarau'r strategaeth ystadau;
 - gosod cerrig milltir a thargedau clir i olrhain cyflawniad y strategaeth;
 - gweithredu dangosfwrdd perfformiad ystadau;
 - cryfhau rheoli risg gweithredol;
 - cwblhau gwaith ar ei gofrestr asedau;

- casglu ac adrodd ar safbwyntiau staff a chleifion ynghylch yr ystad;
- cryfhau adrodd ar gydymffurfiaeth statudol; a
- datblygu a gweithredu cynllun clir ar gyfer gweithlu'r ystadau.

Ffeithiau a ffigyrau allweddol

102

Nifer yr adeiladau a reolir gan y Bwrdd Iechyd yn 2024-25.

**£17.5
miliwn**

Arian cyfalaf a ddefnyddiwyd i wella ystadau yn 2025-26 (ac eithrio cyllid diwedd blwyddyn).

**£76.2
miliwn**

Cost dileu'r ôl-groniad wedi'i addasu yn ôl risg yn 2024-25, cynnydd o 169.2% ers 2022-23. Mae'r ôl-groniad risg uchel yn cyfrif am £10.3 miliwn.

7.9%

Canran o'r 2,335 o faterion a gafodd sylw yn dilyn asesiadau diogelwch rhag tân yn 2024-25, ar ddiwedd mis Medi 2025.

137

Nifer y digwyddiadau clinigol yn ymwneud ag ystadau yn 2024-25.

13.8%

Cyfradd eiddo gwag ar ystadau ar ddiwedd mis Mawrth 2025, o'i gymharu â ffigwr o 11.6% ar gyfer Cymru gyfan.

7.5%

Cyfradd absenoldeb salwch ar ddiwedd mis Mawrth 2025, o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan o 6.6%.

Ein canfyddiadau

Dull strategol o ymdrin ag ystadau

Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir ar gyfer ei ystad, ond mae diffyg cerrig milltir, cynllun ariannol fforddiadwy ac aliniad â chynlluniau eraill yn ei strategaeth, sy'n cyfyngu ar gyflawni newid hirdymor

- 9 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi gweledigaeth glir ar gyfer ei ystad.
- 10 Mae ganddo strategaeth ystad ar gyfer 2023-2033, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mai 2023. Gwelsom ei fod yn amlinellu gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer trawsnewid ystad gofal aciwt, gofal cymunedol a gofal iechyd meddwl y Bwrdd Iechyd. Mae hefyd yn nodi rhaglenni mawr ar gyfer gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni, datgarboneiddio, a defnydd arfaethedig safleoedd unigol.
- 11 Yn gadarnhaol, mae'r strategaeth yn gwneud y canlynol:
 - defnyddio data dibynadwy sydd ar gael adeg ei ddatblygu;
 - adlewyrchu cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ag eraill. Yn benodol, mae'n cyfeirio at y rhwydwaith patholeg cellog rhanbarthol, a rhaglenni orthopedig ac offthalmoleg rhanbarthol;
 - adlewyrchu ymrwymadau'r Bwrdd Iechyd i gynaliadwyedd amgylcheddol, effeithlonrwydd ynni a bioamrywiaeth.
- 12 Fodd bynnag, nid yw'r strategaeth yn gwneud y canlynol:
 - cyd-fynd â strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd a gyhoeddwyd yn ddiweddar;
 - cyd-fynd â strategaethau gweithlu neu ddigidol y Bwrdd Iechyd;

- cynnwys cerrig milltir neu dargedau clir;
- nodi sut mae'n cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol gan gynnwys 'Cymru Iachach', (Deddf) Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), a'r fframwaith clinigol cenedlaethol;
- adlewyrchu dyletswyddau'r Bwrdd Iechyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol mewn perthynas ag ystadau;
- cael cynllun ariannol sydd wedi'i seilio ar sail gadarn ac sy'n fforddiadwy.

13 Nid yw'n glir ychwaith sut y bu i'r Bwrdd Iechyd ymgysylltu â staff, cleifion a phartneriaid wrth ddatblygu ei strategaeth.

Trefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli ystadau

Mae atebolrwydd clir a goruchwyliaeth well ar gyfer ystadau, ond mae adroddiadau perfformiad annigonol, newidiadau gweithredol oedi, a risgiau a reolir yn wael yn cyfyngu ar reoli ystadau'n effeithiol

Llinellau atebolrwydd

- 14 Mae gan y Bwrdd lechyd linellau atebolrwydd clir ar gyfer rheoli ei ystad.
- 15 Y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro sydd â chyfrifoldeb gweithredol cyffredinol am ystadau. Mae'r Cyfarwyddwr Cyfalaf ac Ystadau, a benodwyd yn 2023 pan ddaethpwyd â swyddogaethau cyfalaf ac ystadau at ei gilydd, yn arwain y gwaith cyflawni o ddydd i ddydd. Mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Ystadau) yn darparu cymorth.

Trosolwg corfforaethol

- 16 Ceir trosolwg clir o ystadau ar lefel y Bwrdd a lefel y pwyllgorau.
- 17 Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod y materion sylweddol sy'n ymwneud â'i ystad a'r angen am oruchwyliaeth gadarn. Mae'r Bwrdd wedi enwebu ei Aelod Annibynnol dros Ystadau, sydd hefyd yn Is-gadeirydd. Mae'r rôl hon yn darparu her annibynnol ychwanegol ac yn cryfhau perchnogaeth y Bwrdd ar faterion ystadau.
- 18 Ym mis Mawrth 2025, sefydlodd y Bwrdd lechyd Dasglu Cyfalaf ac Ystadau dros dro, dan gadeiryddiaeth yr Aelod Annibynnol dros Ystadau. Swyddogaeth y tasglu oedd darparu goruchwyliaeth strategol o'r strategaeth ystadau a rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid. Ym mis Mawrth 2026, cytunodd y Bwrdd lechyd i wneud y tasglu yn is-grŵp ffurfiol o'r pwyllgor. Bydd yn parhau i adolygu cynnydd, monitro'r gwaith o gyflawni, ac adrodd ar gyflawniadau, cyllid, risgiau a heriau allweddol.

- 19 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cryfhau'r broses o oruchwyllo drwy sesiynau datblygu wedi'u targedu i'r Bwrdd. Ym mis Mehefin 2025, cafodd Aelodau Annibynnol sesiwn frifio manwl ac ymwelon nhw â safleoedd gyda'r tîm ystadau i weld materion allweddol yn uniongyrchol. Mae rhagor o sesiynau wedi'u cynllunio ar gyfer 2026-27, gan ddechrau ar ganolbwyntio ar ystad Iechyd Meddwl ym mis Mehefin 2026.
- 20 Mae gan y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid gyfrifoldeb clir dros oruchwyllo materion ystadau a chyfalaf, a cheisio sicrwydd yn eu cylch. Mae hyn yn cynnwys cyflawni strategaeth yr ystad, rheoli'r risg sy'n gysylltiedig â gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni, sicrhau cydymffurfiaeth statudol, goruchwyllo buddsoddiad cyfalaf, a dwyn risgiau allweddol i sylw'r Bwrdd.
- 21 Mae'r pwyllgor yn cael adroddiadau rheolaidd ar ystadau. Mae'r tîm ystadau yn darparu diweddariad gweithredol chwarterol, ac mae'r pwyllgor hefyd yn derbyn adroddiadau ar y cynllun cyfalaf – gan gynnwys gwariant ar ystadau – a chynnydd gyda'r broses newid sefydliadol o ran yr ystadau.
- 22 Mae'r pwyllgor yn cyfeirio materion at y Bwrdd gan ddefnyddio'r fformat adrodd safonol 'Triple A' (Rhybuddio, Cynghori a Sicrhau). Mae'r adroddiadau hyn yn nodi'n glir y prif heriau sy'n wynebu'r swyddogaeth ystadau, gan gynnwys:
- hanes o danfuddsoddi;
 - capasiti a gallu cyfyngedig staff;
 - morâl isel ymhlith staff;
 - profiad gwan o gaffael;
 - deallusrwydd busnes tameidiog;
 - effaith swyddi gwag ymhlith staff.
- 23 Mae'r diweddariadau hyn yn gynhwysfawr, ond maent yn rhai naratif yn bennaf ac nid ydynt yn rhoi darlun clir o berfformiad. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod y bwlch hwn ac yn bwriadu cyflwyno dangosfwrdd perfformiad ystadau.

- 24** Mae'r diffyg presennol o adroddiad perfformiad sy'n cael ei lywio'n fwy gan ddata yn adlewyrchu natur dameidiog y trefniadau deallusrwydd busnes yn y sefydliad. Bydd y dangosfwrdd arfaethedig yn adrodd yn y lle cyntaf ar fesurau allweddol, megis cydymffurfiaeth, lleihau risg, gwaith cynnal a chadw adweithiol, ôl-groniad o waith, arbedion cost a data'r gweithlu. Byddai hefyd yn fuddiol ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol gynnwys mesurau o ddigwyddiadau clinigol sy'n deillio o faterion yn ymwneud â'r ystad, yn ogystal ag achosion fu bron â digwydd.
- 25** Bydd adroddiadau yn y dyfodol hefyd yn cadarnhau hyfforddiant a chymhwysedd staff, ac yn olrhain absenoldeb salwch ac oriau ychwanegol, fel y gall rheolwyr weithredu'n gynnar. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi pennu amserlen eto ar gyfer cyflwyno'r newidiadau hyn.

Rheolaeth weithredol

- 26** Mae'r strwythur gweithredol ar gyfer ystadau yn newid. Ym mis Tachwedd 2025, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd newidiadau arfaethedig i wella gallu ac effeithiolrwydd cyffredinol ei dîm ystadau. Mae'r rhain yn cynnwys patrymau sifft newydd, trefniadau wedi'u diweddarau ar gyfer gweithio ar y safle, a strwythur tîm diwygiedig.
- 27** Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu'r newidiadau hyn fesul cam, drwy broses newid gweithredol tair blynedd. Fodd bynnag, mae'r cynnydd ar ei hôl hi. Mae'r cam cyntaf yn cynnwys penodiadau arweinyddiaeth, cyflwyno rolau cliriach, a chreu tîm gweinyddol newydd. Roedd i fod i gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2026, ond mae bellach wedi'i ohirio tan fis Gorffennaf 2026. Mae'n debyg y bydd yr oedi hwn yn effeithio ar gyflawniad camau diweddarach.

- 28 Mae nifer o fforymau yn cefnogi rheolaeth yr ystad o ddydd i ddydd. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd grwpiau gwasanaeth lleol a chyfarfodydd misol gyda Chyfarwyddwyr Gweithredol. Mae staff yr ystadau hefyd yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Iechyd a Diogelwch y Grŵp Gwasanaethau er mwyn nodi a mynd i'r afael â risgiau sy'n ymwneud â'r ystadau. Mae'r Bwrdd Cyfalaf ac Ystadau yn goruchwyllo gwaith llywodraethu'r swyddogaeth ystadau. Adroddir ar faterion allweddol i'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid drwy'r diweddariad gweithredol chwarterol.

Rheoli risgiau ystadau

- 29 Mae gan y Bwrdd lechyd brosesau priodol ar waith i reoli risgiau sy'n ymwneud ag ystadau.
- 30 Mae risgiau'n ymwneud â'r ystad yn ymddangos ar y cofrestrau risg strategol a chorfforaethol. Mae'r Bwrdd lechyd yn nodi camau gweithredu, arweinwyr dynodedig ac amserlenni i leihau'r risgiau hyn. Fodd bynnag, mae'r cofrestrau risg yn dangos effeithiolrwydd rheolaethau amrywiol a lefel gymedrol o sicrwydd yn unig. Er gwaethaf y trefniadau hyn, nid yw sgorau risg wedi gostwng, sy'n awgrymu nad yw'r camau presennol yn ddigon effeithiol eto o ran lleihau risg yn ymwneud ag ystadau.
- 31 Ar lefel weithredol, adolygodd y Bwrdd lechyd ei gofrestr risg ystadau yn ddiweddar. Creodd hyn gofrestr gynhwysfawr yn cynnwys 85 o risgiau yn ymwneud â'r gweithlu, cydymffurfiaeth, parhad busnes a seilwaith. Mae'r gofrestr yn dangos arferion cadarn o nodi risgiau ac yn adlewyrchu maint a chymhlethdod yr ystad.
- 32 Fodd bynnag, mae'r risg weithredol gyffredinol yn dal i fod yn uchel ac yn barhaus. Mae llawer o risgiau gweithredol yn sgorio rhwng 16 a 25. O'r rhain, mae gan 41 reolaethau gwan. Mae materion allweddol yn cynnwys prinder Personau Awdurdodedig a Chymwys ar draws disgyblaethau WHTM (Memoranda Technegol lechyd Cymru); seilwaith sy'n heneiddio ac nad yw'n cydymffurfio â safonau; capasiti cyfyngedig ar gyfer symud cleifion neu wasanaethau dros dro; a phwyntiau methiant unigol mewn systemau hanfodol fel pŵer, stêm a dŵr. Mae'r materion hyn yn cyfyngu ar allu'r Bwrdd lechyd i leihau risg yn effeithiol.
- 33 Mae'r Bwrdd lechyd yn gweithio i alinio risgiau â DATIX, ac mae adolygiadau wythnosol gan reolwr cydymffurfiaeth yn helpu i gynnal goruchwyliaeth. Fodd bynnag, mae bylchau o hyd yn y ffordd y caiff risgiau gweithredol eu rheoli. Mater allweddol yw'r diffyg risg benodol sy'n gysylltiedig â'r broses newid sefydliadol, er bod hyn yn hollbwysig ar gyfer datrys problemau sylfaenol. Mae risgiau gweithredol newydd hefyd yn ddiffygiol o ran dyddiadau adolygu ffurfiol. Yn ogystal, nid yw sgorio risg a thystiolaeth ategol bob amser yn gyson nac yn glir.

Defnyddio adnoddau ariannol i wella ystadau

Mae prosesau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer blaenoriaethu a monitro cyllid cyfalaf yn gadarn, ond mae cyllid hwyr a phwysau gwario ar ddiwedd y flwyddyn yn lleihau effeithlonrwydd a rheolaeth ariannol

Y broses o flaenoriaethu cyllid

- 34 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull cadarn o flaenoriaethu'r cyllid cyfalaf sydd ar gael i wella ei ystad.
- 35 Yn 2025-26, roedd gan y Bwrdd Iechyd £13.2 miliwn o gyllid disgresiynol a chronfeydd penodedig i'w buddsoddi yn ei ystad. Mae'r buddsoddiad hwn wedi cynyddu dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf (**Arddangosyn 1**).

Arddangosyn 1: defnydd o gyllid disgresiynol a chronfeydd penodedig ar gyfer ystadau ar gyfer 2023-24, 2024-25 a 2025-26 (£ miliwn)

Cronfa	2023-24	2024-25	2025-26
Dyraniad cyfalaf disgresiynol	5.2	4.8	4.1
Cyllid y Bwrdd Cyngori ar Ystadau a Chyfleusterau (EFAB)	2.5	4.4	-

Cronfa Ystadau wedi'i Thargedu (TEF) ¹	-	-	9.1
CYFANSWM	7.7	9.2	13.2

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ffurflenni monitro ariannol misol

- 36 Yn 2025-26, cafodd y Bwrdd lechyd hefyd £4.3 miliwn o gyllid cyfalaf Cymru gyfan ar gyfer ystadau, yn ychwanegol at ei ddyraniad TEF. Cefnogodd y cyllid hwn yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw a phrosiectau ystadau eraill, megis goleuadau argyfwng ac atgyweirio toeau.
- 37 Yn gyfan gwbl, mae'r Bwrdd lechyd wedi cael £17.5 miliwn ar gyfer ei ystad. Mae hyn yn llawer is na'r £76.2 miliwn sydd ei angen i fynd i'r afael â'r ôl-groniad wedi'i addasu yn ôl risg, a'r £161.3 miliwn sydd ei angen i gyrraedd cyflwr ffisegol B, fel yr amcangyfrifwyd ar gyfer 2024-25.
- 38 Mae'r Grŵp Blaenoriaethu Cyfalaf yn darparu ffordd glir a strwythuredig o nodi a rhestru anghenion buddsoddi cyfalaf y Bwrdd lechyd yn ôl eu pwysigrwydd. Mae'n cefnogi datblygu rhaglenni cyfalaf blynyddol a phum mlynedd, o fewn terfynau cyllid Llywodraeth Cymru, i'w cymeradwyo gan y Bwrdd lechyd.
- 39 Mae gan y grŵp aelodaeth glir ac fe'i cadeirir gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Cyfalaf). Mae'n cynnwys swyddogaethau allweddol fel ystadau, cyllid, caffael a digidol. Mae hyn yn cefnogi craffu gwybodus ar fforddiadwyedd, hyfywedd cyflawni ac effeithiau ar seilwaith. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter ac yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Cyfalaf ac Ystadau. Mae'n rhoi sicrwydd ynghylch sut y caiff cynlluniau cyfalaf eu datblygu a'u blaenoriaethu.


¹ Cronfa gyfalaf gan Lywodraeth Cymru sy'n targedu risgiau uchel eu blaenoriaeth o ran ystadau yn y GIG, gan gynnwys diogelwch, cydymffurfiaeth a gwydnwch. Disodlodd gyllid Bwrdd Cynghori ar Ystadau a Chyfleusterau (EFAB) yn 2025-26.

- 40 Mae'r Bwrdd Iechyd yn asesu cynlluniau cyfalaf gan ddefnyddio meini prawf clir sy'n cael eu sgorio. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar gynnal gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys seilwaith ffisegol, gwaith cynnal a chadw, seilwaith TG ac offer. Maent hefyd yn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol, ac yn anelu at wella amgylchedd y claf drwy foderneiddio a chyfleusterau gwell.
- 41 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dyrannu o leiaf 30% o'i gyfalaf disgresiynol i gefnogi cynlluniau TEF, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Mae Grŵp Llywio TEF pwrpasol yn goruchwyllo'r cyllid hwn. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn fisol i fonitro cynnydd, cyflawniad a llywodraethiant prosiectau a ariennir.

Monitro a rheoli cronfeydd cyfalaf

- 42 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull cadarn o fonitro a rheoli sut mae'n gwario cronfeydd cyfalaf.
- 43 Mae ganddo Grŵp Rheoli Cyfalaf (CMG) i oruchwyllo'r rhaglen gyfalaf, sy'n monitro sut mae prosiectau'n cael eu datblygu, eu cyflawni a'u hariannu. Mae'r CMG yn darparu fforwm clir i olrhain cynnydd a rheoli gwariant drwy gydol y flwyddyn ariannol.
- 44 Mae'r CMG yn cael adroddiadau misol gan ddeiliaid cyllidebau cyfalaf. Mae'r rhain yn ymdrin â chynnydd, gwariant yn erbyn cyllidebau cymeradwy, a risgiau neu faterion allweddol sydd angen sylw. Mae'r adroddiadau rheolaidd hyn yn cefnogi goruchwyliaeth gadarn ac yn galluogi camau gweithredu amserol pan fydd materion yn codi. Hefyd, mae'r CMG yn cael diweddariadau manwl ar y cynllun cyfalaf, gan gynnwys gwariant arfaethedig a gwirioneddol, oedi a gorwariant. Mae'n cynnal rhestr o gynlluniau cymeradwy ac yn nodi prosiectau a all ddefnyddio unrhyw gronfeydd sydd ar gael os bydd oedi i gynlluniau eraill.
- 45 Adolygwyd y gwariant yn erbyn dyraniad disgresiynol y Bwrdd Iechyd ar gyfer ystadau ar gyfer 2024-25 a 2025-26. Er i'r Bwrdd Iechyd wario mwy na'i gyllideb ddewisol ar gyfleusterau ac eiddo, arhosodd o fewn ei derfyn cyfalaf cyffredinol. Canfuom hefyd bod y rhan fwyaf o'r gwariant yn digwydd tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol (**Arddangosyn 2**).

Arddangosyn 2: cyfanswm cronol misol o wariant dewisol ar yr ystad, o'i gymharu â'r sefyllfa yng Nghymru gyfan, ar gyfer 2024-25 a 2025-26 (canran o'r cyfanswm gwariant)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ffurflenni monitro ariannol misol

- 46 Yn 2025-26, cafodd y Bwrdd Iechyd £4.5 miliwn ychwanegol o gyllid diwedd blwyddyn gan Lywodraeth Cymru, y gellid ei ddefnyddio ar gyfer ystadau. Er y gallai wario'r arian hwn yn effeithiol, arweiniodd y dyraniad hwyr at batrwm gwario anwastad. Cyfyngodd hefyd ar sut y gellid defnyddio'r arian, gan fod yn rhaid cyflawni prosiectau'n gyflym o fewn yr un flwyddyn ariannol.
- 47 Mae gan y CMG aelodau addas a chytbwys, gan gynnwys uwch-aelodau staff cyllid ac ystadau. Mae hyn yn cefnogi rheolaeth ariannol gadarn, herio a gwneud penderfyniadau ynghylch buddsoddiad cyfalaf. Fodd bynnag, rheolir caffael drwy'r adrannau cyllid ac ystadau yn hytrach na thrwy gynrychiolydd caffael penodedig. O ystyried maint a chymhlethdod prosiectau cyfalaf, byddai ychwanegu cynrychiolydd caffael yn cryfhau arbenigedd caffael y grŵp ac yn gwella sicrwydd o ran cydymffurfiaeth caffael, gwerth am arian a risgiau.

- 48 Mae gan y grŵp gylch gorchwyl clir, sy'n nodi ei bwrpas, ei gyfrifoldebau, ei aelodaeth a'i linellau adrodd. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn fisol, sy'n darparu goruchwyliaeth reolaidd o wariant cyfalaf, cyflawni rhaglenni a risgiau cysylltiedig.
- 49 Yn ogystal â'r CMG, mae'r Grŵp Sicrwydd Cynllunio a Chyllid (PFAG) yn adolygu achosion busnes cyfalaf. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod cynigion yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol a bod materion ariannol, caffael a risg yn cael eu hystyried yn llawn.
- 50 Mae goruchwyliaeth PFAG, gyda chefnogaeth y Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau, yn sicrhau bod cynigion cyfalaf yn cyd-fynd â Chynllun Blynnyddol y Bwrdd Iechyd ac, lle bo'n berthnasol, â blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod penderfyniadau buddsoddi yn cefnogi cynlluniau ehangach y Bwrdd Iechyd.
- 51 Mae'r CMG yn atebol yn bennaf i Fwrdd Rheoli'r Bwrdd Iechyd. Os yw cynigion yn mynd y tu hwnt i'r terfynau cymeradwyo dirprwyedig, mae'r grwpiau'n eu cyfeirio at y Bwrdd i'w penderfynu. Mae hyn yn darparu llwybr uwchgyfeirio clir a strwythuredig.
- 52 Mae'r CMG hefyd yn atebol i'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid. Mae'n darparu diweddariadau ac argymhellion yn unol â rôl y pwyllgor o graffu a gwneud penderfyniadau.
- 53 Mae'r Bwrdd Iechyd yn archwilio modelau ariannu amgen ar gyfer ystadau. Er enghraifft, cafodd gyllid drwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe i gefnogi cais cynllunio hybrid ar gyfer safle Ysbyty Treforys a ffordd fynediad newydd. Roedd hyn yn cynnwys cyfraniad o £960,000 tuag at gostau dylunio.
- 54 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi gweithio gyda Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg i sicrhau cyllid ar gyfer y gwaith dylunio. Bydd hyn yn cefnogi achosion busnes ar gyfer cartref newydd i bobl ag anableddau dysgu yn Dan-y-Deri ac ar gyfer cyfleuster i gymryd lle Canolfan Iechyd Cymer.

- 55 Mae adroddiadau clir ar gronfeydd cyfalaf y tu allan i'r swyddogaeth ystadau drwy'r Pwyllgor Iechyd Poblogaeth. Mae'r Diweddariad Partneriaethau rheolaidd, sy'n ymdrin â Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg, yn cynnwys adran bwrpasol ar gyfer cyfalaf. Rhoddir hyn grynodedb o'r cynnydd a wnaed hyd yma a rhagolwg o'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.

Sicrhau ystad effeithlon a chynhyrchiol

Mae'r ystad yn gymharol fodern gyda risg isel o ôl-groniad, ond mae gwendidau mewn cyflwr, cynllunio cynnal a chadw, gwybodaeth reoli ac effeithlonrwydd yn cynyddu risg ac yn cyfyngu ar berfformiad

Cyflwr yr ystad

- 57 Mae ystad y Bwrdd Iechyd yn gymharol fwy newydd ac mae ganddi risg is o ran ôl-groniad gwaith, ond mae ei chyflwr cyffredinol ychydig yn waeth mewn mannau ac efallai y bydd angen buddsoddiad uwch i'w gwella.
- 58 O'i gymharu â'r sefyllfa ar draws Cymru, mae gan y Bwrdd Iechyd gyfran isel o'i ystad a adeiladwyd cyn 1948. Fodd bynnag, mae cyfran yr ystad a adeiladwyd cyn 1995 ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae'r gost o gael gwared ar yr ôl-groniad o waith risg uchel fesul metr sgwâr yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae cyfran lai o'r stoc eiddo yn bodloni'r safon cyflwr ffisegol ofynnol. Mae'r gost o gyrraedd cyflwr ffisegol B yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (**Arddangosyn 3**).

Arddangosyn 3: oedran a chyflwr yr ystad, o'u cymharu â sefyllfa Cymru gyfan, 2024-25

Mesur	Y Bwrdd Iechyd	Sefyllfa Cymru gyfan ²
% yr ystad a adeiladwyd cyn 1948	2.9	13.5
% yr ystad a adeiladwyd cyn 1995	68.6	63.9

² Mae hefyd yn cynnwys Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a oedd y tu allan i gwmpas yr archwiliad.

Mesur	Y Bwrdd lechyd	Sefyllfa Cymru gyfan ²
Cost tynnu ôl-groniad risg uchel fesul m ² o arwynebedd llawr a ddefnyddir (£)	39.80	164.60
Cost tynnu ôl-groniad risg uchel ac arwyddocaol fesul m ² o arwynebedd llawr a ddefnyddir (£)	286.24	458.43
% o'r ystad yn bodloni safon cyflwr ffisegol B	73	83
Cost i gyrraedd cyflwr ffisegol B fesul m ² o arwynebedd llawr a ddefnyddir (£)	620.36	538.54

Ffynhonnell: System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau

- 59 Ar draws safleoedd y Bwrdd lechyd, y gost o gael gwared ar yr ôl-groniad risg uchel yw'r uchaf yn Ysbyty Treforys, sef £68.75 fesul m² o arwynebedd llawr a ddefnyddir. Y gost i gyrraedd cyflwr ffisegol B yw'r uchaf yn Ysbyty Tonna, sef £1,909.02 fesul m² o arwynebedd llawr a ddefnyddir.
- 60 Mae gan y Bwrdd lechyd ddealltwriaeth dda o'i ôl-groniad gwaith cynnal a chadw, yn seiliedig ar arolwg chwe agwedd a gwblhawyd yn 2022. Roedd yr arolwg hwn yn cwmpasu'r ystad gyfan, gan gynnwys safleoedd gofal sylfaenol a gofal cymunedol. Asesodd gyflwr ffisegol, ymarferoldeb, defnydd o ofod, ansawdd, cydymffurfiaeth a pherfformiad amgylcheddol ar y pryd. Mae'r Bwrdd lechyd yn un o dri sefydliad y GIG yn unig yng Nghymru sydd wedi cwblhau arolwg chwe agwedd yn y blynyddoedd diweddar.

- 61 Fodd bynnag, mae arolygon chwe agwedd yn dyddio'n gyflym oherwydd mai dim ond cyflwr yr ystad ar adeg benodol y maent yn ei adlewyrchu. O ganlyniad, mae'r data'n dod yn llai cywir dros amser. Ers 2022, mae ystad y Bwrdd lechyd wedi newid oherwydd adeiladau sy'n heneiddio, gofynion cydymffurfio newydd, ac anghenion gwasanaeth sy'n newid. Mae dibynnu ar yr arolwg hwn yn unig yn cynyddu'r risg o wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth nad yw bellach yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. Nid ychwaith yw'r dull arolwg chwe agwedd yn asesu ardaloedd sydd wedi'u cuddio y tu ôl i waliau, uwchben nenfydau, neu y tu mewn i ystafelloedd offer. O ganlyniad, efallai na fydd risgiau seilwaith yn cael eu nodi'n llawn.
- 62 Mae'r Bwrdd lechyd wedi cadarnhau nad oes yr un o'i adeiladau'n cynnwys concrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth (RAAC).
- 63 Nid oes gan y Bwrdd lechyd amserlen gyfredol ar gyfer Cynnal a Chadw Ataliol a Gynlluniwyd (PPM). Mae'r gofrestr asedau sylfaenol – sydd wedi dyddio ers o leiaf 10 mlynedd – wrthi'n cael ei datblygu ar gyfer safleoedd Treforys a Singleton er mwyn cefnogi gweithredu'r system Rheoli Cyfleusterau â Chymorth Cyfrifiadur (CAFM). Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, dylai'r system gefnogi gwaith cynnal a chadw arfaethedig yn unol â safonau SFG20 a Memorandwm Technegol lechyd (HTM). Mae rhywfaint o waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio yn cael ei wneud, ond mae'r gwariant ar waith cynnal a chadw adweithiol yn llawer uwch. Mae hyn yn dangos dibyniaeth barhaus ar waith adweithiol, sy'n cynyddu risg ac yn lleihau gwerth am arian.

Gwybodaeth reoli gadarn

- 64 Mae'r Bwrdd lechyd yn gwella'r ffordd y mae'n defnyddio gwybodaeth reoli i oruchwylio ei ystad. Mae'r system CAFM wedi'i huwchraddio yn darparu llwyfan cadarn, gyda data cywir ac sydd bron yn amser real ar weithgareddau cynnal a chadw a'r galw ar y ddesg gymorth.

- 65 Fodd bynnag, adeg ein hadolygiad, roedd y gofrestr asedau a ddefnyddir gan y system CAFM o leiaf ddwy flynedd ar ei hôl hi. Mae hyn yn lleihau hyder yn y data ac yn cyfyngu ar allu'r Bwrdd lechyd i lunio amserlenni cynnal a chadw dibynadwy. Mae hefyd yn ei gwneud yn anoddach dangos bod asedau'n cael y gwiriadau sydd eu hangen i sicrhau cydymffurfiaeth. Roedd y Bwrdd lechyd yn diweddarau'r gofrestr yn ystod ein hadolygiad.
- 66 Fel y soniwyd yn gynharach, nid yw'r Bwrdd lechyd wedi ymgorffori adrodd ar berfformiad a'r gweithlu eto, sy'n cyfyngu ar oruchwyliaeth. Er bod cynlluniau ar waith i gyflwyno dangosyddion perfformiad allweddol a chryfhau data'r gweithlu, nid oes amserlen glir wedi'i phennu, sy'n golygu na all y Bwrdd ddibynnu ar y wybodaeth hon eto.

Gwneud y defnydd gorau o gynhyrchiant ac effeithlonrwydd

- 67 Mae'r Bwrdd lechyd yn cymryd camau cyfyngedig i wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd.
- 68 O'i gymharu â'r sefyllfa ar draws Cymru, mae'r Bwrdd lechyd yn perfformio'n waeth o ran addasrwydd swyddogaethol a defnydd o ofod. Mae perfformiad yn y ddau faes wedi dirywio dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae perfformiad ynni wedi gwella, ond mae'n dal i fod uwchlaw cyfartaledd Cymru gyfan (**Arddangosyn 4**).

Arddangosyn 4: perfformiad cynhyrchiant ac effeithlonrwydd yr ystad, o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan, 2024-25

Mesur	Y Bwrdd lechyd	Sefyllfa Cymru gyfan ³
% yr ystad sy'n addas yn swyddogaethol	73	84

³ Mae hefyd yn cynnwys Ymddiriedolaeth GIG lechyd Cyhoeddus Cymru, Addysg a Gwella lechyd Cymru, a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a oedd y tu allan i gwmpas yr archwiliad.

% y defnydd o ofod	87	92
perfformiad ynni (cilowatau (kW))	396	367

Ffynhonnell: System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau

- 69 Ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd, Ysbyty Cefn Coed sydd â'r addasrwydd swyddogaethol isaf, sef 35%. Mae gan Ysbytai Cefn Coed a Gorseinon hefyd y defnydd isaf o ofod, y ddau ar 65%.
- 70 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ar wahân ar gyfer gwaredu ystadau. Mae'r strategaeth ystadau bresennol yn nodi rhai opsiynau ar gyfer gwaredu asedau, ond dim ond ar gyfer saith adeilad ar ei safleoedd gofal aciwt. Nid yw'n cwmpasu safleoedd gofal sylfaenol na gofal cymunedol. Er gwaethaf hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwerthu tri safle ers 2022, gan gynhyrchu £960,000 mewn derbyniadau cyfalaf.
- 71 Mewn rhai achosion, ni all y Bwrdd Iechyd werthu na defnyddio safleoedd eto yn hawdd oherwydd cyfyngiadau cyfreithiol. Mae'r rhain yn cynnwys:
- cyfyngiadau ar ddefnyddio tir Ysbyty Tŷ Garngoch at ddibenion ysbyty ynysu neu barc cyhoeddus yn unig;
 - gofynion i ddiogelu cyflenwad dŵr yn Ysbyty Cefn Coed;
 - prydles Menter Cyllid Preifat (PFI) yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, sy'n rhedeg tan 2030; a
 - rheolau mynediad cyhoeddus ac amgylcheddol yn Hafod Y Wennol, gan gynnwys llwybr troed a choed gwarchodedig.
- 72 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn technoleg i foderneiddio ei ystad a lleihau allyriadau carbon. Mae'n rhedeg fferm solar gyntaf y DU sydd wedi'i chysylltu'n uniongyrchol ag ysbyty. Mae'r cynllun yn darparu tua thraean o drydan Ysbyty Treforys. Mae hefyd yn arbed rhwng tua £0.9 miliwn a £1.2 miliwn bob blwyddyn ac yn lleihau allyriadau carbon o tua 3,400 o dunelli o CO₂.

- 73 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi gwneud gwelliannau pellach drwy raglen RE:FIT Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys goleuadau LED (deud allyrru golau), systemau awyru effeithlon o ran ynni, ac inswleiddio gwell. O'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan, mae gan y Bwrdd Iechyd gyfran uwch o'r arwynebedd llawr mewnol sydd â goleuadau LED (57.2% o'i gymharu â 45.4%).

Cefnogi ansawdd y gofal

Mae prosesau risg diogelwch a chydymffurfiaeth gwan y Bwrdd lechyd, digwyddiadau cynyddol, a chamau gweithredu cyfyngedig ar faterion hysbys yn cyflwyno risgiau i gleifion, staff a darpariaeth gwasanaethau

Lleihau niwed i gleifion a staff gymaint â phosibl

- 75 Mae gan y Bwrdd lechyd brosesau gwan ar gyfer rheoli a lleihau'r risgiau diogelwch sy'n deillio o gyflwr ei ystad. Mae'r risgiau hyn yn effeithio ar staff a chleifion fel ei gilydd.
- 76 Caiff materion, digwyddiadau a risgiau diogelwch sy'n ymwneud ag ystadau eu hadrodd drwy DATIX a'u cyfeirio at y Pwyllgor lechyd a Diogelwch pan fo angen. Mae adroddiad cydymffurfiaeth rheolaidd yn grwpio digwyddiadau yn ôl math. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn rhy gyffredinol, ac nid yw bob amser yn egluro pa gamau a gymerir nac yn dangos a yw risgiau diogelwch wedi lleihau. O ganlyniad, nid oes gan y Bwrdd sicrwydd digonol bod y risgiau hyn yn cael eu rheoli'n dda.
- 77 Mae data ar ddigwyddiadau yn dangos cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall mewn digwyddiadau yn ymwneud ag ystadau ers 2022. Cododd nifer y digwyddiadau a adroddwyd o 72 yn 2022-23 i 137 yn 2024-25, ond nid yw'r data'n egluro pam y mae hyn wedi digwydd. Gallai'r cynnydd adlewyrchu cyflwr yr ystadau sy'n gwaethygu, gwell trefniadau adrodd, gwell ymwybyddiaeth ymhlith staff, neu gyfuniad o'r ffactorau hyn. Rydym hefyd yn nodi y gall rhai digwyddiadau a gofnodwyd ar Datix adlewyrchu ceisiadau am wasanaeth yn hytrach na digwyddiadau go iawn, rhywbeth a all effeithio ar y darlun cyffredinol. Fodd bynnag, heb ddadansoddiad o dueddiadau ac eglurhad cliriach, ni all y Bwrdd ddeall yr achosion yn llawn na chymryd camau wedi'u targedu.

- 78 Ar adeg ein hadolygiad, roedd y Bwrdd Iechyd wedi nodi materion sylweddol yn ymwneud ag ystadau o fewn ei raglen trawsnewid iechyd meddwl. Mae'r materion hyn yn creu risgiau difrifol i ddiogelwch a phrofiad cleifion. Roedd rhywfaint o waith wedi dechrau, ond arafodd adnoddau cyfyngedig y cynnydd.
- 79 Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn casglu nac yn adrodd yn rheolaidd ar ddata cyfunol ynghylch barn staff neu gleifion ar gyflwr yr ystad neu lefelau boddhad. Er bod materion yn cael eu cofnodi drwy ddesg gymorth yr ystadau, nid oes prosesau ffurfiol i ddadansoddi'r data hwn na'i adrodd yn glir i'r Bwrdd neu ei bwyllgorau. Mae hyn yn cyfyngu ar oruchwyliaeth a sicrwydd effeithiol.

Sicrhau cydymffurfiaeth

- 80 Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau gwan i sicrhau bod ei ystad yn bodloni gofynion cyfreithiol. Mae bylchau sylweddol o ran cydymffurfiaeth hefyd.
- 81 O'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan, mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio'n waeth o ran gofynion statudol iechyd a diogelwch, a diogelu rhag tân. Mae perfformiad yn y ddau faes wedi dirywio dros y ddwy flynedd ddiwethaf (Arddangosyn 5).

Arddangosyn 5: arwynebedd llawr a ddefnyddir sy'n bodloni gofynion statudol a diogelwch, o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan, 2024-25 (canran)

Dangosydd	Y Bwrdd Iechyd	Sefyllfa Cymru gyfan ⁴
% yr arwynebedd llawr a ddefnyddir sy'n bodloni gofynion statudol iechyd a diogelwch	75	84

⁴ Mae hefyd yn cynnwys Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a oedd y tu allan i gwmpas yr archwiliad.

% yr arwynebedd llawr a ddefnyddir sy'n bodloni gofynion statudol diogelwch rhag tân	78	86
--	----	----

Ffynhonnell: System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau

- 82 Ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd, Ysbyty Cefn Coed sydd â'r gyfran isaf o arwynebedd llawr a ddefnyddir sy'n bodloni gofynion statudol iechyd a diogelwch, sef 13%. Dyma'r unig safle ysbyty yng Nghymru sydd o dan 50%. Mae cydymffurfiaeth â diogelwch tân yn gyson ar draws pob safle.
- 83 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau dim ond 64% o'r asesiadau risg tân gofynnol. Yn 2024-25, canfu'r asesiadau hyn 2,335 o faterion. Fodd bynnag, dim ond 7.9% o'r materion hyn sydd wedi'u datrys erbyn mis Medi 2025. Fodd bynnag, dylid dehongli'r ffigurau hyn yn ofalus, gan y gall y rhestrau camau gweithredu gynnwys eitemau nad ydynt eto wedi'u dilysu'n llawn gan dimau'r Ystadau ac, mewn rhai achosion, efallai na ellir eu cyflawni heb fuddsoddiad cyfalaf sylweddol. Mae hyn yn cyfyngu ar y sicrwydd bod risgiau diogelwch rhag tân yn cael eu rheoli'n briodol.
- 84 Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn bodloni'r gofynion diogelwch dŵr. Daeth ei Bolisi Diogelwch Dŵr i ben ym mis Hydref 2024 ac roedd yn cael ei adolygu ar adeg ein gwaith. Nododd archwiliad annibynnol yn 2022 nifer o bryderon. O'r 1,812 o faterion a gafwyd yn 2022, mae ein dadansoddiad yn dangos mai dim ond 150 (8.3%) sydd wedi'u datrys. Mae hyn yn peri risg sylweddol o legionella.
- 85 Ar adeg ein hadolygiad, nid oedd y Bwrdd Iechyd wedi cael unrhyw hysbysiadau gorfodi gan yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch. Fodd bynnag, roedd wedi derbyn hysbysiad anffurfiol ynghylch diogelwch rhag tân gan Gyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, yn ymwneud â drysau tân a oedd wedi'u rhwystro yn Ysbyty Treforys. Mae hysbysiadau o'r fath yn tynnu sylw at bryderon diogelwch rhag tân sy'n gofyn am gamau gweithredu prydlon, ond nad ydynt wedi arwain at gamau gorfodi ffurfiol.


- 86 Mae'r adroddiad diweddarau gweithredol chwarterol yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid ynghylch cydymffurfiaeth a llywodraethu, gan gynnwys mewnbwn gan grwpiau diogelwch technegol. Mae'n tynnu sylw at risgiau allweddol, fel asbestos. Fodd bynnag, nid yw'n darparu golwg fanwl ar gydymffurfiaeth â gofynion statudol a diogelwch. Nodir materion yn ymwneud ag asesiadau risg tân a dŵr, ond cânt eu hadrodd drwy gofrestrau risg gweithredol yn hytrach nag fel rhan o adroddiad cydymffurfiaeth unigol ac eglur.

Rheoli gweithlu'r ystad

Mae gweithlu'r ystadau'n wynebu heriau, gan gynnwys swyddi gwag, absenoldeb oherwydd salwch, a gweithlu sy'n heneiddio, sy'n cyfyngu ar gapasiti, yn cynyddu costau, ac yn peryglu darpariaeth a chynaliadwyedd gwasanaethau

87 Mae gan y Bwrdd lechyd dîm ystadau o faint cyfartalog. Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd ganddo 0.54 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn yn y swydd fesul 1,000 m² o arwynebedd llawr a ddefnyddir, o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan o 0.49 cyfwerth ag amser llawn (**Arddangosyn 6**). Ar adeg ein gwaith, nododd y Bwrdd lechyd ei fod yn defnyddio contractwyr i ategu capasiti mewnol ac i fynd i'r afael â bylchau o ran gallu.

Arddangosyn 6: maint y swyddogaeth ystadau fesul 1,000 m² o arwynebedd llawr a ddefnyddir, yn ôl corff y GIG ar 31 Mawrth 2025 (cyfwerth ag amser llawn)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata'r GIG

- 88 Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd lefel uchel o swyddi gwag yn ei dîm ystadau. Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, y gyfradd swyddi gwag oedd 13.8% (22.5 o swyddi cyfwerth ag amser llawn), yn uwch na chyfradd Cymru gyfan o 11.6%. Er i swyddi gwag ostwng i 18.7 o swyddi cyfwerth ag amser llawn erbyn mis Medi 2025, maent yn uchel o hyd. Ar adeg ein gwaith, roedd wedi cyfyngu dros dro ar recriwtio i swyddi hanfodol yn unig oherwydd pwysau ariannol. Mae hefyd yn nodi anawsterau wrth recriwtio staff medrus ar gyfer rheoli stadau, yn enwedig gan na all gynnig cyflogau sy'n cyfateb i'r rhai yn y sector preifat.
- 89 Yn 2024-25, gwariodd y Bwrdd Iechyd £181,000 ar staff asiantaeth i gefnogi ei dîm ystadau. Gwariodd hefyd £1.588 miliwn ar daliadau amrywiol, gan gynnwys staff banc ac oriau ychwanegol. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i gyrrff y GIG roi'r gorau i ddefnyddio staff asiantaeth ym maes rheoli ystadau erbyn 30 Medi 2025, chyrhaeddodd y Bwrdd Iechyd y targed hwn.
- 90 Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, nododd y Bwrdd Iechyd hefyd ar gyfradd uchel o absenoldeb salwch o 7.5% yn ei dîm ystadau. Mae hyn yn rhoi rhagor o bwysau ar gapasiti.
- 91 Mae capasiti cyfyngedig staff yr adran ystadau hefyd yn cyfyngu ar allu'r Bwrdd Iechyd i gefnogi gwasanaethau cymunedol, iechyd meddwl a gofal sylfaenol. Mae bylchau parhaus yn y gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys ar gyfer cynlluniau newydd fel Tŷ Samlet, yn cynyddu'r risg i barhad busnes ac yn gallu arwain at ymatebion adweithiol costus. Heb ddigon o staff i ddarparu cymorth rheolaidd a dibynadwy o ran ystadau ar draws lleoliadau nad ydynt yn rhai aciwt, ni all y Bwrdd Iechyd fod yn hyderus y gall gynnal gwasanaethau'n ddiogel na chyflwyno modelau gofal newydd.

- 92 Bydd y broses arfaethedig o ddod â'r Fenter Cyllid Preifat (PFI) i ben yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ym mis Mai 2030 yn rhoi pwysau ychwanegol ar weithlu ystadau'r Bwrdd lechyd. Mae'r Bwrdd lechyd yn datblygu cynlluniau i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal yr ystad. Fodd bynnag, nid yw'n glir eto a oes ganddo ddigon o staff mewnol, sgiliau neu systemau i reoli'r dyletswyddau cynnal a chadw llawn. Ar adeg ein gwaith, roedd cynlluniau i leihau'r risgiau cysylltiedig o ran gweithrediadau, cyllid a gofal cleifion wrthi'n cael eu datblygu o hyd.
- 93 Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd gan y Bwrdd lechyd y gyfran uchaf o staff ystadau dros 60 oed yng Nghymru, sef 34.8%, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 25.4%. Yn gadarnhaol, mae'n defnyddio prentisiaethau i feithrin capasiti ar gyfer y dyfodol, gyda thri phrentis yn y swydd ar y pryd.
- 94 Nid oes gan y Bwrdd lechyd gynllun gweithlu clir ar gyfer ei swyddogaeth ystadau. Mae wedi cydnabod y bwlch hwn ac yn bwriadu datblygu cynllun datblygu'r gweithlu a chynllun ar gyfer olyniaeth. Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith, roedd y ddau gynllun wrthi'n cael eu datblygu o hyd.
- 95 Nid yw'r Bwrdd lechyd wedi archwilio cyfleoedd i gydweithio â sefydliadau eraill i fynd i'r afael â heriau cyfredol ac yn y dyfodol o ran y gweithlu.
- 96 Mae'r Bwrdd lechyd yn monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant ar gyfer ei staff ystadau, ond mae'r perfformiad yn is na'r targed. Yn 2024-25, roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol yn 81% yn erbyn targed o 85%. Roedd y prif fylchau ym meysydd diogelu rhag tân, symud a thrin, ac atal a rheoli heintiau.
- 97 Cyflawnwyd y targed o 85% ar gyfer cwblhau adolygiadau datblygu perfformiad.
- 98 Yn 2025-26, dyblwyd y gyllideb hyfforddi ar gyfer ystadau i £100,000, ac mae dadansoddiad o anghenion hyfforddi wedi dechrau. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gyfyngedig ynghylch sut y caiff blaenoriaethau hyfforddiant eu cyflawni neu sut y caiff eu heffaith ei mesur.

- 99 Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod staff ystadau yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio datrysiadau digidol sy'n cefnogi dulliau rheoli ystadau.

Argymhellion

100 Rydym wedi gwneud wyth argymhelliad oherwydd ein gwaith.

A1 Dylai'r Bwrdd lechyd ddiweddarau ei strategaeth ystadau, fel ei bod yn cyd-fynd yn glir â'i strategaeth hirdymor a'i gynlluniau ar gyfer y gweithlu a materion digidol. Dylai hefyd ddangos sut mae'r strategaeth ystadau yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys 'Cymru Iachach', Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a fframweithiau polisi allweddol eraill (**paragraff 12**).

A2 Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau ei strategaeth ystadau drwy osod cerrig milltir, targedau ac amserlenni clir, gyda chyfrifoldeb penodol ac adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd ac i'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid, er mwyn gwella atebolrwydd a chyflawniad (**paragraff 12**).

A3 Dylai'r Bwrdd lechyd roi ei ddangosfwrdd perfformiad ystadau ar waith, ei adolygu'n rheolaidd drwy'r Tasglu Cyfalaf ac Ystadau, a sicrhau bod llwybrau clir ar waith i ddwyn materion a risgiau allweddol i sylw'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid. Dylai'r dangosfwrdd hefyd gynnwys mesurau sy'n ymwneud â digwyddiadau clinigol ac achosion fu bron â digwydd sy'n deillio o faterion ystadau (**paragraff 23-25**).

A4 Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau sut mae'n rheoli risg ystadau drwy wella sgorau risg, gosod dyddiadau adolygu, a sicrhau risgiau allweddol. Dylai gynnwys risgiau sy'n ymwneud â newid sefydliadol a pharhad busnes (**paragraff 33**).

A5 Dylai'r Bwrdd lechyd gwblhau'r gofrestr asedau ar gyfer safleoedd Treforys a Singleton fel blaenoriaeth i gefnogi'r system CAFM. Dylai hefyd sefydlu cynllun clir i ymestyn y sylw i gynnwys ei ystad gyfan (**paragraff 63**).

A6 Dylai'r Bwrdd lechyd sefydlu prosesau clir i gasglu, adolygu ac adrodd ar ddata ynghylch barn staff a chleifion ar gyflwr yr ystad a lefelau boddhad – gan gynnwys data'r ddesg gymorth – ac adrodd ar hyn yn rheolaidd i'r Bwrdd a'i bwyllgorau (**paragraff 77**).

A7 Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau'r adroddiadau ar gydymffurfiaeth statudol drwy roi sicrwydd rheolaidd i uwch-reolwyr a'r Bwrdd ar statws cydymffurfiaeth, risgiau a chynnydd wrth gwblhau gwiriadau a mynd i'r afael â materion (**paragraffau 83 ac 84**).

A8 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a chymeradwyo ei gynlluniau ar gyfer y gweithlu ac ar gyfer olyniaeth ym maes ystadau ar frys. Dylai'r rhain fynd i'r afael â swyddi gwag, anghenion staff yn y dyfodol, bylchau mewn sgiliau, hyfforddiant (gan gynnwys systemau digidol), a chyfleoedd i gydweithio ag eraill. Dylent hefyd ddangos sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod ganddo ddigon o staff â'r sgiliau i ymdopi â phwysau a galw yn y dyfodol, gan gynnwys y broses arfaethedig o ddod â'r trefniant PFI i ben yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot (**paragraff 94**).

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Gwnaethom edrych ar y meysydd canlynol, o ran ystadau, yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mai 2026:

- cynllunio strategol;
- trefniadau llywodraethu;
- defnyddio adnoddau ariannol;
- cynhyrchiant ac effeithlonrwydd yr ystad;
- goblygiadau ar ansawdd a diogelwch; a
- rheoli'r gweithlu.

Ni wnaethom edrych ar y canlynol:

- prosiectau mawr yn ymwneud ag ystadau a ariennir (neu a allai gael eu hariannu) drwy Raglen Gyfalaf Iechyd Cymru Gyfan;
- rheoli gweithredol ystadau, gan gynnwys rheoli ystadau a ddelir ar brydles;
- gwasanaethau 'rheoli cyfleusterau meddal' fel gwasanaethau glanhau neu ddiogelwch, sydd hefyd yn allweddol i gefnogi ystad addas i'r diben;
- ystadau gofal sylfaenol.

Cwestiynau'r archwiliad a'r meini prawf archwilio

Cwestiynau

Atebodd ein harchwiliad y cwestiynau canlynol:

- A yw corff y GIG yn meddu ar ddull cynllunio clir ar gyfer ei ystad yn y tymor canolig i'r tymor hir?

- A oes gan gorff y GIG drefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer rheoli ystadau?
- A yw corff y GIG yn defnyddio ei adnoddau ariannol sydd ar gael ar gyfer ystadau yn briodol?
- A oes gan gorff y GIG ystad effeithlon a chynhyrchol?
- A yw ystad y GIG yn cefnogi ansawdd gofal a phrofiad cleifion a staff?
- A oes gan gorff y GIG drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli ei weithlu ystadau?

Meini prawf

Gwnaethom asesu dull y Bwrdd Iechyd yn erbyn meini prawf archwilio a luniwyd yn seiliedig ar y canlynol:

- Fframweithiau cynllunio GIG Cymru, a dogfennau cynllunio perthnasol eraill GIG Cymru, gan gynnwys Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru 2021-30;
- Deddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), a Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED);
- Canllawiau perthnasol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru;
- Gwaith archwilio blaenorol ar reoli ystadau'r GIG.

Dulliau

Adolygwyd amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:

- Papurau a chofnodion y bwrdd a'r pwyllgorau.
- Dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys cylch gorchwyl y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid a'r Tasglu Cyfalaf ac Ystadau.
- Prif strategaethau a chynlluniau, gan gynnwys y Strategaeth Ystadau, y Cynllun Blynnyddol a'r Cynllun Cyfalaf.

- Dogfennau allweddol rheoli risg, gan gynnwys y cofrestrau risg strategol a gweithredol.
- Cofnodion ac agendâu perthnasol pwyllgorau gweithredol, gan gynnwys y Bwrdd Cyfalaf ac Ystadau.

Gwnaethom gyfsweld â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- Aelod Annibynnol Ystadau
- Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Pherfformiad
- Cyfarwyddwr Dros Dro Cynllunio Cyfalaf ac Ystadau
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid (Strategaeth a Chynllunio)

Ar adeg ein hadolygiad, nid oedd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau) ar gael.

Gwnaethom gynnal ddau grŵp ffocws gyda'r canlynol:

- Rheolwr Cymorth Cyfalaf, Dirprwy Gyfalaf; Rheolwr Busnes a Chymorth Gweithredol;
- Arweinydd Diogelwch Tân, Pennaeth Cynnal a Chadw Ystadau ac Arweinydd Iechyd a Diogelwch.

Adolygwyd gennym ddata cenedlaethol sydd ar gael o'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS), ffurflenni monitro ariannol misol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, a data lleol a ddarparwyd i ni gan y Bwrdd Iechyd. Nid ydym wedi archwilio'r data o'r ffynonellau hyn.

2 Maint a lleoliad yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw sydd gan y Bwrdd Iechyd

Mae'r map isod yn dangos maint a lleoliad ôl-groniad y gwaith, wedi'i addasu yn ôl risg, ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn 2024-25. Mae'n eithrio safleoedd sydd ag ôl-groniad gwerth £1 miliwn neu lai.

Arddangosyn 7: maint a lleoliad ôl-groniad y Bwrdd Iechyd wedi'i addasu yn ôl risg, 2024-25 (£ miliwn)



Ffynhonnell: System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS)

3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

Cyfnod	Disgrifiad
Cod Ystadau Cymru 2018	Yn rhoi cyngor manwl ar sut i reoli tir ac adeiladau a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd.
Personau Awdurdodedig a Chymwys ar draws disgyblaethau WHTM (Memoranda Technegol Iechyd Cymru)	Pobl sydd wedi'u hyfforddi, eu hasesu a'u cymeradwyo'n ffurfiol i gyflawni dyletswyddau penodol sy'n hanfodol ar gyfer diogelwch, yn unol â safonau WHTM.
Cynnal a chadw'r ôl-groniad	Mesur o'r buddsoddiad sydd ei angen i adfer adeilad i safon benodol, yn seiliedig ar risg a aseswyd.
Rheoli Cyfleusterau gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAFM)	System a ddefnyddir i reoli gwaith ystadau a chyfleusterau, gan gynnwys cofnodion asedau, gwaith cynnal a chadw cynlluniedig ac adweithiol, gwiriadau cydymffurfiaeth, ac adroddiadau.
DATIX	System electronig a ddefnyddir ar draws GIG Cymru i gofnodi, rheoli a dadansoddi digwyddiadau diogelwch cleifion, pryderon, cwynion a risgiau.
Capasiti trosglwyddo	Gofod sydd ar gael ac a ddefnyddir i symud gwasanaethau neu gleifion dros dro tra bod adeiladau'n cael eu hatgyweirio, eu huwchraddio neu eu disodli.
Cyfalaf yn ôl disgresiwn	Cronfeydd y gall sefydliad eu dyrannu yn ôl ei ddisgresiwn ei hun.

Cyfnod	Disgrifiad
Bwrdd Cyngori ar Ystadau a Chyfleusterau (EFAB)	Rhaglen cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru a gefnogodd welliannau wedi'u targedu i ystadau ar draws GIG Cymru, gan gynnwys seilwaith, datgarboneiddio a diogelwch rhag tân. Cafodd ei ddisodli gan y Gronfa Ystadau wedi'u Targedu (TEF) yn 2025-26.
System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS)	System Cymru gyfan a ddefnyddir i gasglu ac adrodd ar ddata ynghylch ystadau a chyfleusterau'r GIG. Mae'n cefnogi monitro, meincnodi a gwella perfformiad, ac yn llywio cynllunio a gwneud penderfyniadau.
Addas yn swyddogaethol	Canran yr arwynebedd llawr a ddefnyddir sy'n bodloni safon Cyflwr B <u>Cod ystadau Cymru 2018</u> .
Memorandwm Technegol Iechyd (HTM)	Canllawiau technegol y GIG sy'n pennu safonau ar gyfer peirianeg, diogelwch a gweithrediadau mewn ystadau gofal iechyd, er mwyn sicrhau amgylcheddau diogel sy'n cydymffurfio â rheoliadau.
Ôl-groniad risg uchel	Materion sy'n gofyn am gamau brys i atal methiant difrifol, tarfu sylweddol ar wasanaethau, neu risgiau diogelwch a allai achosi niwed neu arwain at gamau cyfreithiol.
Arwynebedd llawr a ddefnyddir	Cyfanswm arwynebedd llawr adeiladau a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau'r GIG, gan gynnwys mannau sy'n eiddo i'r GIG, wedi'u prydlesu, neu a ddefnyddir o dan gytundebau.
Proses newid sefydliadol	Ffordd strwythuredig o gynllunio a rheoli newid. Mae'n helpu sefydliadau i wella eu ffordd o weithio a gwneud newidiadau mewn ffordd glir, deg a threfnus, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff a sicrhau bod gwasanaethau'n rhedeg yn effeithiol.

Cyfnod	Disgrifiad
Cyflwr ffisegol B	Wedi'i ddiffinio yng <u>Nghod ystadau Cymru 2018</u> yn gadarn, diogel o ran gweithrediad, ac sy'n dangos mân ddirywiad yn unig.
Menter Cyllid Preifat (PFI)	Contract hirdymor lle mae cwmni preifat yn ariannu, yn adeiladu ac yn cynnal cyfleusterau'r GIG, ac mae'r GIG yn talu ffi flynyddol nes bod yr ased yn dychwelyd i berchnogaeth y GIG.
Ôl-groniad wedi'i addasu yn ôl risg	Yr amcangyfrif cost i ddatrys problemau cynnal a chadw, wedi'i phwyso yn ôl difrifoldeb y risg i ddiogelwch, gwasanaethau neu gydymffurfiaeth.
Grŵp gwasanaeth	Rhan o strwythur y Bwrdd Iechyd sy'n rheoli ac yn darparu grŵp o wasanaethau cysylltiedig. Mae pedwar grŵp gwasanaeth ar hyn o bryd. Treforys, Singleton a Chastell-nedd Port Talbot, Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol, ac Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.
SFG20	Safon y DU ar gyfer gwaith cynnal a chadw ataliol cynlluniedig, sy'n darparu set o amserlenni cynnal a chadw sy'n cael eu diweddarau'n barhaus yn seiliedig ar ddeddfwriaeth, rheoliadau ac arfer gorau.
Ôl-groniad risg sylweddol	Atgyweiriadau neu amnewidiadau sydd angen gweithredu ar frys i osgoi pryderon cydymffurfio neu risgiau i ddarparu gofal iechyd diogel.
Arolwg Chwe Agwedd	Asesiad o ystadau'r GIG sy'n gwerthuso cyflwr, addasrwydd, defnydd o ofod, ansawdd, diogelwch a pherfformiad amgylcheddol adeilad er mwyn cefnogi cynllunio ystadau.
Defnydd gofod	Canran arwynebedd llawr a ddefnyddir yn llawn fel y'i diffinnir yng <u>Nghod ystadau Cymru 2018</u> .

Cyfnod	Disgrifiad
Cronfa Ystadau wedi'i Thargeddu (TEF)	Cronfa gyfalaf gan Lywodraeth Cymru sy'n targedu risgiau uchel eu blaenoriaeth o ran ystadau yn y GIG, gan gynnwys diogelwch, cydymffurfiaeth a gwydnwch. Mae'n darparu £80 miliwn (2025–27), gyda chyrff y GIG yn cyfrannu 30%.
Fframwaith RE:FIT Llywodraeth Cymru	Fframwaith a gefnogir gan Lywodraeth Cymru sy'n helpu cyrff cyhoeddus i wella effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau, gyda phrosiectau'n cael eu cyflawni gan ddarparwyr cymeradwy ac arbedion wedi'u gwarantu drwy gontractau.
Safonau Memoranda Technegol Iechyd Cymru (WHTM)	Canllawiau yng Nghymru sy'n nodi sut y dylid dylunio, cynnal a gweithredu adeiladau a systemau'r GIG er mwyn cadw cleifion a staff yn ddiogel.

4 Ffurflen Ymateb Rheolwyr

Argymhelliad	Sylwadau ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A1 Dylai'r Bwrdd lechyd ddiweddarau ei strategaeth ystadau, fel ei bod yn cyd-fynd yn glir â'i strategaeth hirdymor a'i gynlluniau ar gyfer y gweithlu a materion digidol. Dylai hefyd ddangos sut mae'r strategaeth ystadau yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys 'Cymru Iachach', Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a fframweithiau polisi allweddol eraill	Datblygir Strategaeth Ystadau ddiwedddaredig dros y 12 mis nesaf i gefnogi Cynllun Gwasanaethau Clinigol Trawsnewid ar gyfer y Dyfodol y Bwrdd lechyd a'i gynllun cyfalaf 5–10 mlynedd, gan dynnu sylw at risgiau sylweddol yn ymwneud â gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni ar draws ystad y Bwrdd lechyd, yn unol â Chod Ystadau HBN00-08 sy'n darparu arfer gorau i sefydliadau'r GIG yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys diweddarau EFPMS a systemau rheoli adeiladau.	30 Medi 2027	Cyfarwyddwr Cyfalaf ac Ystadau

Argymhelliad	Sylwadau ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A2 Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau ei strategaeth ystadau drwy osod cerrig milltir, targedau ac amserlenni clir, gyda chyfrifoldeb penodol ac adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd ac i'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid, er mwyn gwella atebolrwydd a chyflawniad	Yn dilyn datblygu'r Strategaeth Ystadau ddiwygiedig, caiff amserlenni, dulliau monitro a pherchnogaeth eu cryfhau drwy fecanweithiau adrodd i'r Grŵp Rheoli Cyfalaf a sefydlwyd yn ddiweddar ac i'r Pwyllgor Cyfalaf, Asedau a Thir. Bydd adroddiadau cynnydd ffurfiol yn darparu trosolwg o berfformiad yn erbyn cerrig milltir y cytunwyd arnynt, yn nodi risgiau a chamau lliniaru, ac yn tynnu sylw at feysydd sydd angen ymyrraeth bellach. Bydd y trefniadau hyn yn cryfhau atebolrwydd, yn cefnogi cyflawniad y Strategaeth Ystadau ac yn rhoi sicrwydd rheolaidd i'r Bwrdd ynghylch cynnydd yn erbyn amcanion strategol, gydag amserlenni clir a monitro yn erbyn cynllun 10 mlynedd y Bwrdd lechyd.	30 Medi 2027	Cyfarwyddwr Cyfalaf ac Ystadau / Cyfarwyddwr Cyllid
A3 Dylai'r Bwrdd lechyd roi ei ddangosfwrdd perfformiad ystadau ar waith, ei adolygu'n rheolaidd drwy'r Tasglu Cyfalaf ac Ystadau, a sicrhau bod llwybrau clir ar waith i ddwyn	Bydd y Strategaeth Ystadau newydd yn cefnogi gweithredu Dangosfwrdd Perfformiad CAFM ar gyfer yr ystadau, gan alluogi dulliau monitro effeithiol ar berfformiad yr ystadau, digwyddiadau clinigol ac achosion fu bron â digwyddiad sy'n ymwneud â'r ystadau, goruchwyliaeth reolaidd drwy'r Tasglu Cyfalaf	30 Medi 2027	Cyfarwyddwr Cyfalaf ac Ystadau / Cyfarwyddwr Cyllid

Argymhelliad	Sylwadau ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
materion a risgiau allweddol i sylw'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid. Dylai'r dangosfwrdd hefyd gynnwys mesurau sy'n ymwneud â digwyddiadau clinigol ag achosion fu bron â digwydd sy'n deillio o faterion ystadau	ac Ystadau, ac uwchgyfeirio risgiau a materion allweddol i sylw'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid.		
A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau sut mae'n rheoli risg ystadau drwy wella sgorau risg, gosod dyddiadau adolygu, a sicrhau risgiau allweddol. Dylai gynnwys risgiau sy'n ymwneud â newid sefydliadol a pharhad busnes	Mae'r Bwrdd Iechyd yn derbyn yr argymhelliad hwn. Byddwn yn cryfhau trefniadau rheoli risg ystadau drwy adolygu'r gofrestr risg ystadau bresennol, er mwyn sicrhau bod risgiau'n cael eu sgorio'n gyson yn unol â fframwaith rheoli risg y Bwrdd Iechyd. Bydd gan bob risg ddyddiadau adolygu wedi'u diffinio'n glir a pherchnogion risg dynodedig i gefnogi gwaith monitro a sicrwydd parhaus. Byddwn hefyd yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r gofrestr i sicrhau bod pob risg sylweddol sy'n gysylltiedig ag ystadau yn cael ei chynnwys, gan gynnwys risgiau newid sefydliadol a pharhad busnes.	31 Mawrth 2027	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau / Pennaeth Ystadau Peirianeg

Argymhelliad	Sylwadau ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	Bydd adolygiadau rheolaidd yn cael eu hymgorffori yn y broses lywodraethu i sicrhau bod risgiau'n parhau i fod yn gyfredol, yn cael eu hasesu'n briodol, ac yn cael eu codi yn y grwpiau diogelwch ystadau yn unol â blaenoriaethau strategol a gweithredol.		
A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd gwblhau'r gofrestr asedau ar gyfer safleoedd Treforys a Singleton fel blaenoriaeth i gefnogi'r system CAFM. Dylai hefyd sefydlu cynllun clir i ymestyn y sylw i gynnwys ei ystad gyfan	Ar yr un pryd, bydd yr Adran Ystadau yn datblygu rhaglen fesul cam i ymestyn cwrmpas y gofrestr asedau ar draws yr ystad ehangach. Bydd y rhaglen hon yn blaenoriaethu'r safleoedd sy'n weddill yn seiliedig ar risg, hanfodoldeb gweithredol a gofynion gwasanaeth, gyda'r nod o sefydlu un gofrestr asedau gynhwysfawr sy'n cyd-fynd â system CAFM. Caiff cynnydd ei fonitro drwy strwythur llywodraethu'r Ystadau, gydag adolygiadau rheolaidd i sicrhau ansawdd data, cysondeb a chwblhau'r rhaglen o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt. Bydd cwblhau'r gwaith hwn yn cryfhau trefniadau rheoli asedau, yn gwella ansawdd y wybodaeth am yr ystad sydd ar gael ar gyfer gwneud penderfyniadau, ac yn cefnogi cyflawniad strategaeth ehangach y	31 Awst 2027	Pennaeth Ystadau Peirianeg

Argymhelliad	Sylwadau ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	Bwrdd lechyd ar gyfer yr ystad. Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau o fewn 12 mis.		
A6 Dylai'r Bwrdd lechyd sefydlu prosesau clir i gasglu, adolygu ac adrodd ar ddata ynghylch barn staff a chleifion ar gyflwr yr ystad a lefelau boddhad – gan gynnwys data'r ddesg gymorth – ac adrodd ar hyn yn rheolaidd i'r Bwrdd a'i bwyllgorau	Mae'r Bwrdd lechyd yn derbyn yr argymhelliad hwn. Byddwn yn sefydlu proses glir a chyson ar gyfer casglu, adolygu ac adrodd ar wybodaeth y Ddesg Gymorth ynghylch canfyddiadau staff a chleifion o gyflwr yr ystad a boddhad â gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys adborth gan staff presennol a mecanweithiau ymgysylltu â chleifion, cwynion a chanmoliaeth, arolygon, a data perfformiad a cheisiadau am wasanaeth sy'n ymwneud â'r Ddesg Gymorth Ystadau. Datblygir trefniadau i ddadansoddi a thriongli'r wybodaeth hon o'r Ddesg Gymorth er mwyn nodi tueddiadau, meysydd sy'n achosi pryder, a chyfleoedd i wella. Bydd adroddiadau perfformiad a boddhad rheolaidd yn cael eu cynhyrchu a'u cyflwyno drwy'r strwythurau llywodraethu priodol, gan gynnwys adrodd i'r Bwrdd a phwyllgorau perthnasol, er mwyn rhoi	31 Ionawr 2027	Pennaeth Ystadau Peirianeg

Argymhelliad	Sylwadau ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	sicrwydd ynghylch ansawdd, cyflwr ac effeithiolrwydd yr ystad a'r gwasanaethau sy'n ei chefnogi.		
A7 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r adroddiadau ar gydymffurfiaeth statudol drwy roi sicrwydd rheolaidd i uwch-reolwyr a'r Bwrdd ar statws cydymffurfiaeth, risgiau a chynnydd wrth gwblhau gwiriadau a mynd i'r afael â materion	Mae adroddiadau cydymffurfiaeth rheolaidd yn cael eu cyflwyno ar hyn o bryd trwy'r strwythur llywodraethu sefydledig h.y. Bwrdd Cyfalaf a Eiddo, Grŵp Rheoli Cyfalaf, Pwyllgor Perfformiad a Chyllid, gan ddarparu gwelededd clir o berfformiad cydymffurfiaeth statudol, gweithredoedd sy'n weddill, risgiau a rheolyddion lliniarol. Fodd bynnag, mae'r trefniadau a'r ffocws ar hyn o bryd yn cael eu hadolygu fel rhan o adolygiad strwythur pwyllgor ehangach, a bydd y argymhelliad yn rhan o'r adolygiad hwn.	31 Rhagfyr 2026	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau/Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
A8 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a chymeradwyo ei gynlluniau ar gyfer y gweithlu ac ar gyfer olyniaeth ym maes ystadau ar frys. Dylai'r rhain	Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu a ffurfioli Cynllun Gweithlu Ystadau cynhwysfawr, sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol y Bwrdd Iechyd a gofynion gwasanaeth y dyfodol. Bydd y cynllun yn asesu capasiti a gallu'r gweithlu presennol, yn nodi swyddi	31 Awst 2027	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau / Pennaeth Ystadau Peirianeg

Argymhelliad	Sylwadau ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
fynd i'r afael â swyddi gwag, anghenion staff yn y dyfodol, bylchau mewn sgiliau, hyfforddiant (gan gynnwys systemau digidol), a chyfleoedd i gydweithio ag eraill. Dylent hefyd ddangos sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod ganddo ddigon o staff â'r sgiliau i ymdopi â phwysau a galw yn y dyfodol, gan gynnwys y broses arfaethedig o ddod â'r trefniant PFI i ben yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot	gwag a bylchau mewn sgiliau sy'n bodoli eisoes, ac yn rhagweld anghenion y gweithlu yn y dyfodol ar draws holl swyddogaethau'r Adran Ystadau. Bydd y cynllun yn ystyried yn benodol oblygiadau pwysau sy'n dod i'r amlwg ar wasanaethau, rhaglenni moderneiddio ystadau a'r bwriad i adael contract PFI Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ar y gweithlu. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y Bwrdd Iechyd y lefelau staffio, yr arbenigedd technegol a'r gallu arwain priodol sydd eu hangen i reoli cyfrifoldebau'r ystad yn y dyfodol yn effeithiol.		

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â rhai cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei gwaith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill o Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir i ddisgrifio Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain a nodir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.